

Pris: 50c

Papur Pawb

Ebrill 2010 Rhif 358



tud 3
Pobl a Phethe

tud 5/9
Ysgolion

tud 10
O'r Talwrn


tud 11
Ble yn y byd

Pob hwyl yn Llanerchaeron!

Cafodd criw o ddisgyblion uwchradd lleol gryn lwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd a gynhaliwyd ym Mhafiliwn y Bont yn ddiweddar. O blith y llu o ddisgyblion o Ysgol Penweddig a ddaeth i'r brig roedd Sam Ebenezer, Maes-y-felin, a gipiodd y wobr gyntaf am yr Unawd Alaw Werin a'r Unawd Allan o Sioe Gerdd. Enillodd Medi Fflur Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont, y gystadleuaeth

stepio unigol i ferched dan 15, a hithau ond yn 12 oed! Hefyd enillodd y parti stepio, a'r mwyafrif ohonynt o ardal *Papur Pawb*, y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth dan 25 – tipyn o gamp o ystyried mai 14 yw oedran yr hynaf yn y grŵp. Eu hyfforddwraig yw Alaw Lewis, sydd wedi ymgartrefu yn Y Garth, Tal-y-bont, ac mae hi'n awyddus i sefydlu clwb stepio yn y pentref ym mis Medi.

Newyddion da yn wir! Hefyd, mae Elis Llwyd Ifan, Steffan Thomas, Peter Jones, Carwyn Hughes a Robin Tomos, yn aelodau o fand pres Penweddig a fydd yn cystadlu yn y Genedlaethol ar ddechrau Mehefin. Pob llwyddiant i'r bobl ifanc hyn o'r ardal – cofiwch gadw llygad barcud mas amdanynt ar y sgrin neu yn y pafiliwn. Gweler tudalen 12 am luniau.



Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 – os ydych yn byw ar hyd y ffordd fawr, beth am addurno'r tŷ a'r ardd i groesawu ymwelwyr sy'n teithio drwy'r ardal?



Buddugwyr Ysgol Gynradd Tal-y-bont: o'r chwith – Seren Powell-Taylor, Glain Llwyd Davies, Mari Lewis, Betsan Siencyn, Bethan Benham, Niamh O'Brien, Catrin Huws, Geraint Howard, Zoë Forster Brown. Gweler tudalen 9 am fanylion y cystadalu.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis.	(01970) 832473
Tynnu lluniau:		
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Parsel Henlllys:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Eglwysfach:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Taliesin:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin	832672
Tal-y-bont:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
Tre'r Ddôl:	Kathleen Richards, Y Bryn	832201
Maes y Deri:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog	(01654) 781260
	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
Cadeirydd:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Is-gadeirydd:	Geraint Pugh, Dôl Pistyll	832433
Ysgrifennydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont	832384
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	832560
Aelodaeth:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu:	Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Bleddyn Huws (Tanysgrifiadau)	

Cyhoeddi gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyron

Glannant
Taliesin

Annwyl Olygydd

Yn ei hysbyseb yn rhifyn Mawrth 2010 Papur Pawb, dywedir SSE Renewables, drwy adeiladu fferm wynt Nant y Moch "Bydd Ceredigion gam yn nes at gynhyrchu cymaint o drydan ag y mae'n ei ddefnyddio", sy'n awgrymu heb y fferm wynt ni fydd Ceredigion yn gallu cynhyrchu digon o drydan adnewyddol. Mae hyn yn hollol anghywir ac mae'r datganiad yn gamarweiniol.

Pan agorwyd fferm wynt Cefn Croes yn 2005, gwnaeth gwefan Cyfeillion y Ddaear brolio y byddai Cefn Croes yn cynhyrchu 58.5MW o drydan, sef "hanner anghenion Ceredigion". Mae'n deg i feddwl, felly, fod Ceredigion yn defnyddio 117MW. Dywed hysbyseb SSE bydd Nant y Moch yn cynhyrchu 140 – 170 MW, digon i 65,000 o dai (yn ôl Cyfrifiad 2001, mae 30,972 o gartrefi yn y sir). Felly, ni fydd Ceredigion "gam yn nes": bwriedir i Nant y Moch gynhyrchu llawer mwy na'r angen lleol.

OND. Mae ynni adnewyddol yn cael ei gynhyrchu yn y sir yn barod: 56MW yng Nghwm

Rheidol, 10.2MW ar Fynydd Gorddu, 6MW yn Llangwryfon, 2.4MW yn Llywernog a 58.5MW ar Gefn Croes. Cyfanswm o 133.1MW, felly mae Ceredigion yn allforio ynni yn barod. Gofynnwyd ar ddiwedd erthygl flaen y rhifyn diwethaf (ar t.5). "pan bwyswn y switsh, o ble daw'r trydan?"; gallwn ateb â chydwybod glir "o ffynhonnell adnewyddol, cynladwy yng Ngheredigion"

Gellir dadlau, wrth gwrs, y dylwn fod yn ddinasyddion da a chynhyrchu ynni i'r genedl gyfan. Ni allaf gytuno, os yw hynny'n golygu arberthi Nant y Moch er mwyn arbed y Cotswolds a Box Hill a Chreigiau Gwyn Dover. Oni dylai trigolion Bourton-on-the-Water a Lyme Regis a Royal Tunbridge Wells holi eu hunain "pan bwyswn y switsh...?"

Yn ôl beth rwy'n gweld, mae Ceredigion wedi gwneud mwy na'i siâr i gytraedd targedi gwyrdd y llywodraeth, ac mae'n bryd i rhai o siroedd eraill Cymru a thu hwnt edrych ar eu polisiau cynladwy nhw.

Yn y cyfamser, beth am ymddiheuriad a chywiriad gan SSE?

John Leeding

Gweler tudalen 7 am lythyr gan Gwilym Jenkins.

Dyddiadur

Ebrill

- 9 C.FFI Tal-y-bont a'r cylch
Gala nofio y Sir
- 10 Bethel 2 Gweinidog
Rehoboth 10 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a chymun
- Eglwys St Pedr Bontgoch
Elerch 2.30 Hwyrdd Weddi
Festri'r Pasg
- 13 CFFI Tal-y-bont a'r cylch
Noson Swyddogion
- 14 Sefydliad y Merched
Tal-y-bont, Sgwrs am
Bumlumon, John Morgan,
Neuadd Goffa Tal-y-bont
2.30pm
- 18 Bethel 2 Parch Andrew
Lenny
Nasareth 2 Grŵp y Morfa
Rehoboth 10 Rhidian
Griffiths
- 19 Merched y Wawr, Meleri
Wyn James
- 20 Cffi Tal-y-bont
- 23 Clwb nos Wener, Y Llew
Du, Gai Toms
- 25 Bethel 10 Parch Elwyn
Jenkins
Nasareth 2 Beti Griffiths
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreuol Weddi
- 27 CFFI Tal-y-bont
- 28 Merched y Wawr Pwyllgor
Rhanbarth
- 28 Capel Bethel, 7.30.
Cwmni'r Morlan yn
cyflwyno Damien, Tomos
ac Arianwen Wen Wen.

Gwobrau'r Diwydiant Cyhoeddi

Llongyfarchiadau i ddwy wasg leol am ennill gwobrau'n ddiweddar mewn seremoni arbennig a gynhaliwyd yn Aberystwyth ym mhresenoldeb Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth. Enillodd Atebol, sef cwmni cyhoeddi Glyn a Gill Saunders Jones, Y Fagwyr, y wobwr am Ddylunio a Chynhyrchu Llyfr Plant am eu cyfrol Mathiadur gan Robin Bateman a dyluniwyd gan Ceri Jones.

Enillodd y Lolfa y wobwr gyfatebol am Ddylunio a Chynhyrchu Llyfr i Oedolion am Plu, o waith Caryl Lewis. Y Lolfa hefyd a gipiodd y wobwr am y Gwerthwr Gorau Heb Fod yn Ffuglen am gyfrol Keith Davies, Cofio Grav.

Mai

- 2 Bethel 2 Gweinidog
Nasareth 11.15 Bugail (C)
Rehoboth 2 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30
Cymun Bendigaid
Eglwys St Pedr Bontgoch
Elerch 2.30 Cymun
Bendigaid
- 4 CFFI Tal-y-bont
- 9 Dechrau Wythnos Cymorth
Cristnogol
Bethel, Nasareth, Rehoboth
10 a 5.30 Cymunfa Ganu
Capel y Garn
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun
- 15 Gŵyl Tyddyn a Gardd
Frenhinol Cymru
- 16 Bethel 5 Gweinidog
- 17 Nasareth 5 Lewis Wyn
Daniel
- 18 Rehoboth 10 John Hughes
- 19 Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
- 20 Eglwys St Pedr Bontgoch
Elerch 2.30 Hwyrdd Weddi

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddeus o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn



**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Helen a Ceri.
Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Enid a Robat Gruffudd
01970 8327718
enidgruffudd@talktalk.net
Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn 7 Mai a bydd y papur ar werth ar 14 Mai.

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Profesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Isy-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

S. F. BYRNE

Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

Tegan ar goll!

Oes yna unrhyw ferch fach wedi colli tegan meddal? Mae Sheila Talbot, Tŷ Clyd, Penlôn, wedi dod o hyd i 'My Kitty' yn y clawdd yn agos at yr ysgol, yn faw drosti i gyd. Mae hi'n awr wedi cael bath, ac yn aros yn amyneddgar i'w pherchennog ddod draw i'w chasglu hi. Ffoniwch 832574, neu galwch heibio'r tŷ.

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion at Mrs Sylvia Cartwright, Y Romans, sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais am ychydig.

Pasio'r Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Vicky Evans, Dyffryn a Rosie Bailey, Bontgoch ar lwyddo yn eu prawf gyrru yn ddiweddar.

Caws, Gwin a Chân

Cynhelir pumed noson flynyddol caws, gwin a chân Eglwys Elerch ar Nos Wener, Mehefin 26, 2010. Cyhoeddir manylion yr artistiaid yn llawn yn rhifyn nesaf Papur Pawb. Cadwch y dyddiad yn glir yn ei dyddiaduron.

Marwolaeth

Bu farw John Evans gynt o Pantycelyn, Bontgoch yn ysbyty Tregaron rai misoedd yn ôl. Mae llawer yn cofio yn dda amdano, cydymdeimlwn a'r teulu.

Brysiwch wella

Dymuniadau gorau i John Griffiths, Fferm Ffwrnais, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

Sefydliad y Merched, Eglwysfach

Cafodd yr aelodau gwledd o luniau golygfeydd Cymraeg ar 1-3-10 i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Y siaradwr oedd Richard Hartnup o Aberystwyth. Mae Richard yn ffotograffwr a cherddwr sy'n wybodus am flodau gwyllt hefyd. Diolch i Jill Roberts am wneud y cacennau cri.

Cronfa Eleri ar y we

Mae gan gwmni Ynni Angen a Chronfa Eleri wefan, bellach. Bydd ffurflenni cais Cronfa Eleri i'w cael yma yn ystod y cyfnod gwneud ceisiadau. Hefyd ceir hanes fferm wynt Mynydd Gorddu yn ogystal a Chronfa Eleri. Y cyfeiriadau perthnasol yw: www.ynniamgen.com

Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Mr Evan James, Ffordd y Gogledd, Tre' Ddol a oedd yn dathlu penblwydd arbenig iawn diwedd mis Mawrth yn 90 oed.

Gwella

Da deall fod Jano a Gwyndaf Evans, 94 Maes y Deri yn well erbyn hyn ar ôl eu anhwylder yn ddiweddar.

Cymdeithas y Chwiriorydd

Aeth criw o ddeunaw ohonom ar Fawrth 9ed ar ymweliad i'r Llyfrgell Genendlaethol. Gyda diolch i Anwen Jones am ddethol ffilmiau o ddiddordeb lleol i ni gael ei gweld yn y Drwm.

Y cynta oedd hanes Lloyd George mewn cyfarfod a Hitler yn Berlin yna'r Eistedfod Genedlaethol yn Aberystwyth yn 1952. I ddilyn cawsom hanes John a Jim adeg boddi Nantymoch ac hefyd hanes am fywyd caled y bugeiliaid ar lethrau Plimlunon. Y nesaf oedd "Y Ffatri Wlân yn Nhal-y-bont gyda John Hughes y perchennog yn esbonio pob agwedd o'r broses i wneud brethyn a hynny pan oedd y peiriannau i gyd yn cael eu gweithio gyda llaw a throed". Roeddem i gyd yn gwerthfawrogi y pwysigrwydd bod yr hanesion yma ar gôf a chadw.

Cyn mynd gartref mwynhawyd tē yn y tŷ bwyta a phawb yn mwynhau cymdeithasu.

Damwain

Cafodd Geraint Penpompren Uchaf ddamwain ar ei fys a bu lawr yn ysbysty Treforus, da gweld ei fod yn gwella.

Diolch

Mae Ficer a swyddogion Eglwys Elerch yn ddiolchgar iawn i Gronfa Eleri am ymateb mor bositif i'r cais am gymorth ariannol tuag at welliannau yn yr adeilad. Clustnodwyd cymorthdal o £5533 ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, a bydd hwn o gymorth mawr i ddatblygu ein strategaeth tymor hir.

Diolch

Hoffai Evan James Diolch yn fawr iawn am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbynodd wrth ddathlu ei benblwydd yn 90 oed.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Mr Sears, Cae Bitfald, Tre'r Ddol sydd yn yr ysbyty yn Machynlleth.

Plant y Fflam

Mae nifer o'n heuenctid talentog wedi eu derbyn i fod yn rhan o sioe uwchradd Eisteddfod yr Urd eleni. Yn eu plith mae Sam Ebebezer, Elan Elidyr, Jenô Lewis a Lois Jones. Addasiad o record hir gan Edward H Dafis yw'r sioe a chyfarwyddir gan Jeremy Turner. Ymhlith y cast mae wyr ag wyres Gwilym ag Ann Jenkins, sef Elliw ac Aron Dafydd o Silian ger Llambled.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn a Pam Byrnes, Kathleen o Vancouver, Phillis Ellis, Linda Hicks ac Ivor Jones a'u teuluoedd ar farwolaeth ei brawd Brian oedd yn byw i lawr yng Nghaerfyrddin. Roedd Brian wedi ymddeol o'r gwasanaeth Ambiwlans ond wedi mynd yn ôl i helpu yr henoed a methedig gyda larwm personol. Cofiwch at Anne y plant ar teulu oll.

Sefydliad y Merched, Tal-y-bont

Dyma adroddiad o'r flwyddyn hyd yn hyn. Bu'n rhaid gohirio ein cinio Blwyddyn Newydd oherwydd y tywydd, ond rydym yn cael 'cinio busnes' yng Nghlwb Golff y Borth ym mis Mai. Bryd hynny byddwn yn trafod y penderfyniad am eleni, a gaiff ei drafod – a'i basio, gobeithio – yn y Cyfarfod Blynnyddol yng Nghaerdydd ym mis Mehefin, sef 'dull gorfodol o labelu bywyd gan nodi gwlad y tarddiad'.

Ni allai ein siaradwr gwadd ddod i gyfarfod mis Ionawr, a bu'n rhaid i Ann Ovens, ein siaradwr gwadd ym mis Chwefror, ohirio oherwydd iddi gael damwain; fodd bynnag, daeth atom ym mis Mawrth i siarad am ei gwenyn mêl. Mae Ann yn wenynwr o fri, gyda deg o gychod gwenyn sy'n ffynnu hyd yn oed mewn cyfnod lle mae miloedd o wenyn yn cael eu lladd gan ryw salwch anghyffredin. Roedd yn ddiddorol iawn clywed am gylch bywyd y gwenyn mêl, a'r ffordd y maent yn cydweithio.

Ym mis Ebrill bydd partneriaid a chyfeillion yn ymuno â'r aelodau i wrando ar John Morgan yn sgwrsio am y cefndir amgylcheddol i'r datblygiad ar Bumlumon, a chynhelir cystadleuaeth am 'graig Gymreig frodorol'.

Mae Sefydliad y Merched yn agored i unrhyw fenyw dros 16 oed, ac estynnir croeso cynnes i aelodau newydd. Am sgwrs anffurfiol, mae croeso i chi ffonio'r llywydd, Juliet, ar 832205 neu'r ysgrifenyddes, Sheila, ar 832574.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn ag Alun, Catrin ac Elan, Simdde Wen, Tal-y-bont ar golli modryb annwyl iawn i Alun sef Mrs Eluned Williams, Llanelltyd.

Damwain

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Rhydian Evans, Tynant, Tal-y-bont a gafodd ddamwain gyda buwch yn ddiweddar.



Dathlu 50 mlynedd

Llongyfarchiadau i Jano a Gwyndaf Evans, 94 Maes y Deri ar ddathlu eu Priodas Arian ar y 26 Mawrth. Hoffai Jano a Gwyndaf ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd.



Bethel yn helpu trigolion Haiti

Er nad oedd ond ychydig amser ers i griw mawr ddod at ei gilydd yn y Neuadd Goffa i fwynhau te prynhawn a chodi swm teilwng iawn o arian at Apêl Haiti, roedd Eglwys Bethel yn ffyddiog y byddai'r pentrefwyr yn fwy na bodlon cefnogi digwyddiad arall i gefnogi'r un achos gyda'r bwriad o geisio lleddfu rhywfaint ar y dioddefaint.

Felly, ar fore Sadwrn, 6 Mawrth, trefnwyd fore coffi, raffl a stondinau amrywiol, ac unwaith eto hyfryd oedd gweld pobl a phlant o bob oed yn tyrru i'r Neuadd Goffa i fwynhau'r gwmniaeth, i brynu pob math o nwyddau, i geisio ennill un o'r llwythi o wobrau raffl ac, yn bwysicach na dim, i gefnogi'r achos.

Rhodddwyd croeso twymgalon i ymwelydd arbennig ac annisgwyl, sef Sali Mali, a chafodd y plant gyfle i fwynhau ei chwmni hi a rhai o sêr S4C a fu'n eu diddanu â thriciau syrca, yn ogystal â rhoi cyngor i unrhyw un a ddymunai hynny ar y newid i wasanaeth teledu digidol. Yn glo hyfryd ar y bore cafwyd eitemau amrywiol wedi eu cyflwyno'n raenus gan rai o blant yr Ysgol Sul dan ofal Falyri Jenkins.

Hoffai'r Eglwys ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant yr achlysur, ac i'r criw lluosog o bob oed a ddaeth i gefnogi. Codwyd £1,000 yn y bore coffi, yn ychwanegol at y cyfraniad o £200 oddi wrth yr Eglwys ei hun, a £150 oddi wrth yr Ysgol Sul, a anfonwyd pan dorrodd y newyddion am y drychineb gyntaf ddechrau mis Ionawr. Gyda chefnogaeth pentref Tal-y-bont, felly, mae Eglwys Bethel wedi trosglwyddo cyfanswm o £1,350 i Apêl Haiti – camp aruthrol yn wir.



Carys Briddon

Bydd y rhai craff yn eich plith wedi sylwi fod enw Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r Ddol wedi diflannu o focs cynorthwyyr Papur Pawb. Dechreuodd Carys weithredu fel teipyddes y papur yn Ionawr 1982 - rhifyn 75 a oedd yn llawn hanes yr eira mawr. Am gyfnod o wyth mlynedd ar hugain ers hynny mae Carys wedi teipio lluo o straeon a channoedd o rifynnau cyfan o'r papur. Ar y dechrau gweithio ar deipiadur trydan oedd Carys, gyda'r holl ddeunydd yn cael ei deipio'n golofnau a fyddai wedyn yn cael ei sticio lawr fesul tudalen i greu'r papur. Roedd yn rhaid cadw'r penwythnos yn glir a byddai Carys yn dechrau ar y gwaith nos Wener a cheisio gorffen erbyn nos Sul. Fel nawr, byddai newyddion yn cyrraedd yn hwyr ac yn gofyn am sylw ychwanegol cyn i'r papur fynd i wasg y Lolfa. Hefyd wrth gwrs Carys fyddai'n gorfod gwneud sens o'r nodiadau blêr (heb enwi neb!) a thrawsnewid y cyfan i straeon synhwyrol. Roedd Carys yn 'sticler' am gywirdeb a gallech ddibynnu arni gant y cant.

Bellach wrth gwrs mae'r drefn wedi newid a nawr mae'r deunydd i gyd yn cael ei baratoi gan olygyddion y mis ar gyfrifiadur – a dyna'r rheswm am ddiffianiad enw Carys o'r bocs. Yn ogystal bu'n ohebydd i'r papur am flynyddoedd.

Mae Carys wedi ymddeol o'i swydd fel ysgrifenyddes yn Adran Addysg y Brifysgol ac yn treulio'i hamser yn ymddiddori yn y 'pethe.' Cystadlu mewn eisteddfodau lleol, ymchwilio i hanes ei bro a gweithio ar y goeden deulu. Ar gangen teulu ei Mam mae eisoes wedi olrhain yr hanes i 1755. Yn amlwg felly mae'n dal mor brysur ag erioed. Diolch i Carys am ei holl waith i Bapur Pawb dros y blynyddoedd.

Dathlu 60 mlynedd

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Haydn Ebenezer, Maes y Deri ar ddathlu eu Priodas Diamwnt yn ddiweddar. Dyma nhw yn dathlu gyda'u hwyrtes Talitha oedd yn ymweld â'r teulu yn ddiweddar.



Ysgol Gynradd Llangynfelyn

Eisteddfod Offerynnol

Llongyfarchiadau mawr i blant yr ysgol a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd yn ysgol Comins Coch. Bu cystadlu brwd eleni, ac mi oedd ein band ni efo'r gorau o fewn y dalgylch. Dalwch ati.

Diwrnod y Llyfr

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr eleni trwy wahodd y disgyblion i wisgo fel eu hoff gymeriad allan o lyfr. Bu nifer fawr yn fentrus a gwisgo ychydig yn wahanol i'r wisg ysgol a chafodd bawb hwyl wrth wneud amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y dydd.

Tê Parti Masnach Deg

Cafwyd te parti Masnach Deg yn yr ysgol i ddathlu wythnos Masnach Deg. Bu'r plant bach wrthi yn brysur yn ceginio cacennau gan ddefnyddio cynhwysion Masnach Deg a ddaeth nifer o'r disgyblion â bwyd Masnach Deg i'r ysgol. Bu'r plant hynaf yn dysgu am Fasnach Deg drwy'r wythnos gan roi sylw arbennig i ddillad a chotwm.

Ymweliad yr RSPB

Daeth yr RSPB i'r ysgol i siarad am y wennol a'i thaith flynyddol yn ôl ac ymlaen i De Affrica. Cafwyd llawer o hwyl yn chwarae gemau a bu dysgu am yr aderyn arbennig yma a'i thaith anhygoel.



Gwasanaeth Arbennig

Diolch i'r Parchedig Roger Thomas am ddod eto y tymor yma i gynnal gwasanaeth gyda'r disgyblion.

Adar Ysglafaethus

Daeth y Ganolfan Adar Ysglafaethus i'r ysgol i ddangos a siarad am nifer o'u hadar arbennig. Syfyrdanwyd y plant wrth weld yr adar yma yn yr ysgol, a chafodd nifer o'r disgyblion y fraint o ddal un o'r adar mwyaf, sef yr "Eagle Owl."



Iaith a Chwarae

Mae Mrs Nemes wedi bod yn brysur iawn yn cynnal sesiynau Iaith a Chwarae yn yr ysgol. Mae'r sesiynau wedi bod yn llwyddiannus iawn efo nifer fawr o rieni a phlant bach yr ardal yn dod i'r ysgol i chwarae a mwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithiwn bydd y plant bach yma yn dechrau yn yr ysgol yn fuan iawn.

Nyrs Ysgol

Ymwelodd y Nyrs â'r ysgol i gynnal sesiwn efo'r plant bach a'u rhieni yn ddiweddar.

Hwyl fawr

Dymuniadau gorau i Mrs Daniel ar ddiwedd tymor y Pasg gan ei bod yn dechrau gwaith yn Ysgol Penrhyncoch ar ddechrau Tymor yr Haf. Croesawn Miss Lisa Raw-Rees i'r ysgol am ddau diwrnod i ddysgu disgyblion Cyfnod Allweddol 2.



Iaith a Chwarae



MID WALES STORAGE

STORFA CANOLBARTH CYMRU

STORFA DODREFN



STORFA FUSNES ARCHIFAU



STORFA I FYFYRWYR



PACEDU



**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR
CCTV
WEDI GYNHESU
CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll
Machynlleth
SY20 8BQ

Tel 01654 703592

Teyrnged

Mr D.W.Davies, gynt o'r Fferyllfa

Yn annisgwyl, bu farw D.W.Davies, gynt o'r Fferyllfa yn Ysbyty Bronglais ar fore Sul y 7fed o Chwefror. Treuliodd dros ddeugain mlynedd yn fferylllydd yn Nhal-y-bont ac yr oedd ei siop yn un o ganolfannau cymunedol y pentref yn ystod yr amser hwnnw.

Ganwyd ef ym mhentref Ffarmers ger Llambod ym mis Ionawr 1928, a chafodd ei addysg yn ysgol y pentref. Yn hytrach nag aros ymlaen yn yr ysgol gynradd nes oedd yn bedair ar ddeg oed, fel oedd yn arferol bryd hynny ac yna dechrau gweithio, aeth ef ac un disgybl arall i Lanwrda i sefyll arholiad yr 11+, cyn cael eu derbyn i Ysgol Ramadeg Llanymddyfri. Rhaid oedd aros mewn llety o Ddydd Llun i Ddydd Gwener yn y dref, gan ei bod yn daith rhy bell i'w gwneud yn ddyddiol. Yr adeg honno, roedd yn rhaid gwneud dwy flynedd o 'National Service', a threuliodd ef yr amser gyda'r Llynges Fasnachol yn teithio yn ôl ac ymlaen dros yr Iwerydd. Cofiai gludo 'GI brides' ar eu ffordd i America i ddechrau bywyd newydd yno, a'r rheiny druan yn dioddef yn ofnadwy o salwch môr! Yn wir, dywedodd mai'r tro diwethaf iddo fod mewn ysbyty cyn mynd i Bronglais yn ddiweddar oedd dros drigain mlynedd yn ôl a hynny yn Bermuda!

Wedi gadael y llynges, aeth i'r Coleg Fferylllyddiaeth yn Lerpwl am ddwy flynedd, cyn dechrau gweithio fel fferylllydd i gwmni 'Boots', gan deithio o gwmpas de Cymru i wahanol fannau fel byddai'r galw. Ar un adeg bu'n lletya gyda rhieni'r actor Philip Madoc, pan oedd hwnnw'n blentyn ysgol.

Priododd â Beatrice a oedd yn athrawes yn Ysgol Ffarmers ar y pryd, ac wedi geni Sian, eu plentyn hynaf, agorodd siop yn Nhal-y-bont, lle ganwyd dwy ferch arall iddynt, sef Delyth a Mair. Yn ogystal â bod yn fferylllydd, roedd hefyd yn gwerthu papurau newydd ac roedd yn hoffi mynd o gwmpas y pentref yn dosbarthu'r papurau bob bore. Byddai'n mwynhau galw i mewn yn siop y crydd ym Mhen-lôn, lle roedd nifer o gymeriadau'r pentref yn ymgasglu i drafod materion y dydd. - 'Parliament' fyddai'r enw ar y siop, ac weithiau byddai'n go hwy'r yn dod yn ôl i'w siop ei hun!!

Roedd yn berson oedd â llawer o ddiddordebau. Roedd yn hoff o lenyddiaeth Cymraeg a Saesneg ac yn hoff o farddoni. Enillodd sawl cadair eisteddfodol a chyhoeddwyd englynion ganddo yn 'Awen Aberteifi'. Bu'n mynd i ddosbarthiadau Gwenallt yn neuadd Rhydypennau yn ystod y pumdegau ac yna i ddosbarthiadau Euros Bowen yng Nghwmmllynell. Roedd yn hoff o bysgota ac yn treulio sawl noson ar lannau'r afon Rheidol neu i fyny ger llynnoedd Plasymynydd gyda physgotwyr brwd eraill fel Wil Morgan a

Jim Bach yn gwmni iddo. Roedd yn dipyn o athletwr yn ei ddyddiau cynnar, yn treulio'i Sadyrnau yn mynd i wahanol 'sports' mewn pentrefi cyfagos i Ffarmers. Roedd yn gricedwr da ac yn chwarae i dîm Tal-y-bont, ac roedd yn arbennig o hoff o rygbi gan chwarae i Lamedd yn ei ddydd. Roedd yn dilyn rygbi yn awchus, ac roedd yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd nôl ym mis Tachwedd diwethaf yn cael mwynhad o weld Shane Williams yn sgorio cais a gweld Cymru yn curo'r Ariannin. Gwelodd ei gêm olaf ar deledu ar y ward yn ysbyty Bronglais, pan oedd Cymru'n chwarae'r Alban. Roedd hefyd yn mwynhau chwarae snwcer, byddai Morgans Glanfred yn galw amdano yn aml i fynd i'r neuadd yn Nhal-y-bont neu byddent yn mwynhau ambell gêm yn Nghlwb St David's yn Aberystwyth. Roedd golff yn hoffter mawr arall ganddo, a dechreuodd chwarae yng nghwmni Dafydd Rhagfyr, yn ôl yn y 70au. Yn wir roeddent mor frwdfrydig fel mai nhw oedd yr unig ddau chwaraewr ar y cwrs golff rhyw bnawn Nadolig!! Erbyn nawr ef oedd yr aelod hynaf yng Nghlwb Golff y Borth ac roedd gan *Dai Chem* ffrindiau da iawn yno. Cafodd sawl trip draw i Arcklow yn Iwerddon gan fod cysylltiad agos rhwng y ddau glwb.

Roedd yn ddarlennwr mawr, yn wybodus, yn medru siarad am unrhyw bwn dan haul ac yr oedd hefyd yn meddu ar synnwyr digrifwch arbennig. Efallai bod rhai o drigolion Tal-y-bont yn cofio'r canifal hwnnw yn ôl yn yr wythdegau pan ymddangosodd Margaret Thatcher, gyda siwt drwsiadus las, bag llaw, sgidiau sodlau uchel a gwallt melyn hen flewyn o'i le. Roedd Mrs Thatcher wedi gadael ei dyletswyddau yn Stryd Downing ac wedi ymweld â Thal-y-bont. Ysgwydodd law gyda nifer o drigolion y pentref. Roedd llawer o ddyfalu pwy oedd yn cuddio tu ôl i'r masg a'r wig. Wedi ennill y wob'r gyntaf, bu'n rhaid tynnu'r masg a datgelwyd mai Mr Davies y Chemist ydoedd!! Pwy fuasai'n meddwl!!

Ar ôl colli ei briod yn sydyn iawn yn 1994, bu'n parhau i wneud gwaith 'locum' i Gary yn y Fferyllfa yn Nhal-y-bont, a symudodd i fyw i Bow Street. Gwnaeth ffrindiau da yno a byddai wrth ei fodd yn galw yn nhafarn y Rhydypennau ar nos Iau er mwyn cwrdd â ffrindiau. Roedd ganddo chwech o wryon ac roedd Tadu yn tipyn o arwr iddynt. Byddai'n ymweld â Sian a Mair a'u teuluoedd yng Nghaerdydd yn gyson, a byddai i'w weld yn aml gyda phlant Delyth yn cael cinio yn *Llety Parc* neu *Heathers* adeg gwyliau ysgol.

Cynhaliwyd yr angladd yn hollol breifat yn yr Amlogsgfa yn Aberystwyth a chleddir ei weddillion yn Eglwys Llanycrwys, Ffarmers.



Y Doctor a'i Deulu

Adeg Cyfrifiad 1871 yr oedd y Dr.David Williams yn fis oed ac yn byw yn London House (Maesgwyn wedyn) Tre'r-ddôl yng nghartref ei dad-cu a'i fam-gu, Lewis a Jane Thomas, gyda'i fam Jane a'i dad David, a ddisgrifir fel Capten Mwynfeydd Plwm. Ganed y Capten ym 1851 yn y Goitre Farch yn drydydd o chwe phlentyn Capten Charles a'i wraig Mary. Ail-briododd Charles ar ôl colli Mary gyda Sarah a chawsant saith o blant. Buont yn byw yn Nhaliesin yn ymyl capel Rehoboth, a Dole House Llannerch. Ym 1901 roedd Sarah y weddw yn byw yn Heol y Felin gyda'i meibion ieuengaf, Robert, Albert (fu farw yn Nhegfan Llandre ym 1945), a Charles Owen.

Bu'r Capten David yn ŵr amlwg yn hanes mwynfeydd ei gynefin, e.e. y Romans (yn ymyl fy nghartref yn Nhaliesin gynt), ac Allt y Crib, Tal-y-bont. Mae'n rhaid ei fod yn cael ei gyfrif yn gyn arbenigwr yn ei faes oherwydd cafodd ei wahodd i ail-agor ac arolygu gweithfeydd yn ardal Pateley Bridge heb fod ymhell o Harrogate. Yno ym 1875 y ganwyd ail fab Jane ag yntau, Lewis Oliver, ac Annie o'r ardal ddaeth yn wraig iddo yn Fron-goch, Tre'r-ddôl yn ddiweddarach a'i gynorthwyo fel cigydd. Rwy'n falch fy mod yn cofio'r ddau a fu farw ym 1947 a'u claddu ym mynwent Llangynfelyn. Ym 1979 ganed Jennie a ddaeth yn wraig i David Edwards fferm Aber-Leri, Ynys-las, a'u merch Marie oedd yn gofalu am ei hewythr y meddyg yn Nhre'r-ddôl.

Roedd Lewis Oliver y cigydd yn dad-cu i'r chwiriorydd Kathleen ac Ann, Tal-y-bont, a'u cefnder Billie Bwtsiwr a faged yn Fron-goch ar colli'i fam yn ddwyflywydd. Gan Kathleen y cefais gopi o adroddiad diddorol yn *The Pateley Bridge and Nidderdale Herald*, 7 Chwefror 1880, am noson cyflwyno rhodd i'r Capten David Williams. Dywedir iddo roi bywyd newydd i weithfeydd y fro ac i ddangos eu gwerthfawrogiad cyflwynodd 126 o'i weithwyr a'u teuluoedd set o lestri arian mewn cas mahogani ynghyd ag anerchiad ar vellum wedi'i fframio iddo ef a'i briod. Canmolir ef am agor gweithfeydd yn ardal Greenhowhill a gofalu fod y gweithwyr yn cael cyflog teg. Wrth ymateb pwysleisiodd y Capten bwysigrwydd cael perthynas iach rhwng y meistri a'r gweithwyr. Dylem lawenhau fod un o feibion disglair Tre'r-ddôl wedi

cyfoethogi bywyd y gymuned yn ardal Pateley Bridge.

Wedi cyflawni ei waith yno dychwelodd y Capten i Dre'r-ddôl ac adeiladu tŷ braf Cletwr Hall i fod yn gartref i'r teulu. Yno y bu'i fab y Doctor yn byw hyd ei farw ym 1948. Gan fod Anti Martha chwaer mam, a'i theulu yn byw yn ymyl deuthum yn gyfarwydd a'r tŷ hardd ac yn ddiweddarach bwm yno pan oedd 'nhad ag eraill yn ei atgyweirio. Bu farw'r Capten a Jane ei briod ym 1917 ac yn yr adroddiad am ei angladd ef yn y *Cambrian News*, 11 Ionawr 1918, dywedir ei fod yn ŵr poblogaidd yn ei ardal ac ar ben y pŵl ym mhob etholiad lleol a sirol. Roedd yn bysgotwr brwd a bu'n aelod selog o Fwrdd Afonydd Dyfi, Mawddach a Glaslyn, fel ei fab ar ei ôl. Roedd yn hoffi darllen llyfrau diwinyddol a mynychu cyfarfodydd pregethu pob enwad yn y cylch.

W J Edwards

James Memorials

Am
GOFBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**

Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

Datblygu Ynni Glan

**Llety'r Bugail
Tal-y-bont**

Annwyl Olygydd

Cefais fy synnu'n fawr pan ddarllenais yr adroddiad yn Papur Pawb, fod cymaint yn gwrthwynebu datblygu ynni glan ar Fynyddoedd Cambria. Mae bron pob un 'rwyf i wedi siarad ag e' sydd yn wreiddiol o'r pentref a'r ardal yma yn gefnogol iawn i'r melinau gwynt.

Roedd Lance Mytton yn anghywir yn cyfeirio at Fynyddoedd Cambrian fel un o'r ardaloedd olaf yng Nghymru heb ei ddifwyno gan unrhyw fath o ddatblygiad. Colodd yr ardal hon yr harddwch eithriadol mae Dafydd Morris Jones yn cyfeirio ato, yn ei ardal e, ddechrau'r chwedegau. Cafodd yr ardal yma ddechrau ei ardeithio yn ddiadrugaredd, pan werthodd Stâd Gogerddan 6000 o erwau Fynyddoedd Cambria i'r Comisiwn Coedwigaeth am y nesaf peth i ddim heb roi gwybod i'r tenantiaid. Dyna i chi beth oedd tro sâl. Bu bron i fi dorri nghalon amser hynny, a sawl un arall 'run fath â mi. Eu dadl oedd i roi gwaith i'r dyfodol. Do, fe gyflogwyd amryw i blannu y blynyddoedd cyntaf - B'le mae nhw heddi? Pa sawl mab a merch ffarm gollwyd amser hynny? a gorfod gadael cartref i chwilio am waith, had y gymuned. Y peth cyntaf cafodd ei wneud oedd chwalu pob tŷ oedd ar y stâd, taflu'r walydd a'r toion i lawr i'r hanner, rhag ofn âi rhywun i fyw iddynt. Sôn am fandaleiddio! Bum yn cael bwyd lawer gwaith yn nhŷ Bwlchgarreg, tŷ bach hyfryd, ac yn ôl Edgar, roedd tŷ Lluestygraffie newydd gael ei wneud fyny fel palas, ond lawr gafodd ddod, a'r tai allan, doedd dim gwarchod unrhyw dyddyn i fod.

Roeddwn yn adnabod yr ardal yma, Mynyddoedd Cambria, i'r Gorllewin o Bumlumon fel cefn fy llaw, ac yn cofio'r cyfan heb yr un goeden. Roedd yn beth mawr i weld llwynog yr adeg hynny, os gwelech un mewn blwyddyn byddech wedi bod yn ffodus iawn, ond erbyn hyn, nhw a'r moch daear sy'n teyrnasu ac yn bla, a'r gymdeithas leol sy'n diodde. Nid yw'r Comisiwn yn fodlon gwneud unrhyw beth i'w rheoli. Yn ôl Papur Pawb roedd rhai am warchod adar prin a bywyd gwyllt y mynydd-dir. Mae gormod o warchod y cryf ar draul y y gwan wedi bod yn barod. Rydym yn gweld yr effaith yn awr ar ôl iddi fynd yn rhy hwyr. Mae adar yr ucheldir sy'n nythu ar y llawr wedi darfod o'r tir yn llwyr yn barod, dim ond ambell chedydd sydd ar ôl, tra bod adar sy'n nythu'n uchel yn dal i ffynnu. Does dim angen coleg i wybod pam. Peth arall sydd wedi darfod yn llwyr o'n nentydd yw'r brithyll. Cyn plannu'r coed, roedd afon Dolrhuddlan yn llawn pysgod braf, fel pob nant arall.

Pa sawl llwybr cyhoeddus gafodd ei golli adeg y plannu? Roedd yna lwybr yn mynd dros glawdd llyn Nantycagal ar hyd llechwedd Castell Bach lawr i Luest Gota cyn y plannu. Sawl un arall sydd wedi mynd? Ond y peth mwyaf trist yn fy ngolwg i yw'r ffordd mae'r goedwig yn cael ei chynaeafu. Mae yn mynd at fy nghalon i, i weld y ddaear oedd mor annwyl im yn gorfod dioddef y fath driniaeth a neb yn pryderu amdano. A'r cyfan yn cael ei wneud gan un dyn ar beiriant anghygoel. **B'le mae'r gwaith â addewid?** Gofalodd yr hen fugeiliaid yn anrhydeddus am y winllan â roddwyd i'w gofal, yn enwedig yr adar. Gofalent na chât yr un mochyn daear groeso ar yr ucheldir. Roedd yr hen fugeiliaid wedi dysgu trwy brofiad sut i warchod byd natur, rhaid bod yn greulon weithiau fel mae byd natur ei hun.

Petai unrhyw amaethwr yn gwneud canfed o'r llanast yma ar ei dir, câi garchar a cholli ei gymorthdal i gyd.

Y peth gwaethaf ddigwyddodd erioed i fynyddoedd Cambria,

oedd pan brynnodd y llywodraeth ddarn helaeth ohonynt. Yn ôl Dafydd Morris Jones, doedd e ddim yn gweld llawer o lês mewn coedwigaeth i'w gymharu ag amaethyddiaeth a thwristiaeth, mae e'n ffodus yn Nhŷ Mawr fod Dolwen, Blaenmeherin a Nantrhys allan o'i olwg.

Mae'r cynllun melinau gwynt yma yn gynllun cyffrous iawn. Gwelaf ynddo obaith newydd i'r ucheldir. Rwyf yn ei gefnogi i'r carn. Cytunaf yn llwyr gyda Mark Williams am roi'r gofynion lleol yn gyntaf. Mae yn bwysig iawn fod yr amaethwyr lleol yn dod gyntaf, y rhai fydd yn llwyddo i gadw mab neu ferch adref i weithio ar ôl cael melin wynt ar eu tir, rheiny ddylai gael y flaenoriaeth. Os collwn bobl - fel yr adar - o'r ucheldir, dyna'r diwedd. Gwelaf arwyddion yn barod nad felly mae yn mynd i fod. Paham mae'r llywodraeth wedi cwmpo ugeiniau o gyfeiriau o'i coed ers blynyddoedd a ddim yn meddwl ail-blannu? A ydynt yn gwybod rhywbeth nad ydym ni yn gwybod? Maent wedi gwneud un tro sâl iawn â'r ardal yma'n barod, does bosib fod un arall ar fin digwydd? Ar gyfer plannu coed fynnon nhw fynd a'r tir oddiarnom yn y dechrau. Os ydynt am newid eu meddwl, yn ôl i'r gymuned leol ddylai'r stâd i gyd ddod. Mae cymdeithasau ac ysgolion yn yr ardal hon wedi elwa'n fawr yn ariannol oddi wrth Cronfa Eleri a mae gobaith fod mwy i ddod. Mae'n bwysig fod y gymdeithas leol yn cael siar o'r elw. Cynigiodd y Comisiwn Coedwigaeth ddim erioed am ei llanast, dim hyd yn oed ymddiheiriad.

Diddorol iawn oedd gweld yn Papur Pawb fod John Morgan wedi dod a'i sylwadau i ben mewn gair o weddi, gweddi fawr Elfed, "Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion". Carwn innau ddod a hyn o eiriau i ben trwy ddiolch i'n "Penllywydd" am ei ofal dros Gymru ar hyd y canrifoedd trwy ddarparu digon o wynt a dŵr yn ein afonydd yn rhad ac am ddim i gynhyrchu ynni glân a gofyn am Ei arweiniad pan yn trafod sut ei ddefnyddio yn ddoeth, a hynny er lles pawb.

Gwilym Jenkins

Os am dacs neu fws mini

**CAMBRIAN
CABS**

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

CEFNOGWCH GYMRO LLEOL

H. LLOYD WILLIAMS
CYNNAL A CHADW GERDDI
TORRI PORFA A SIETYN,
GOSOD DECKING A SLABIAU

DOES DIM YN ORMOD O WAITH!

32 Bryncastell Ffôn: 01970 820699
Bow Street Symudol: 07966 105519



Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM



BFGoodrich



KUMHO TYRES

Ffôn 01970 636774

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cynhaliwyd dau gyfarfod yn ystod y mis diwethaf, sef cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio a chyfarfod llawn o'r Cyngor. Trafodwyd un cais gan yr Is-bwyllgor Cynllunio, sef newid defnydd cae amaethyddol (*Cae'r Odyr Galch*) ar bwys ffermdy Maesnewydd yn faes pêl-droed. Os llwydda'r cais, mae'n fwriad gan y Clwb Pêl-droed Hŷn a'r Clwb Pêl-droed Ieuenctid lleol i alw cyfarfod cyhoeddus gyda'r bwriad o sefydlu Pwyllgor Rheoli i ddatblygu'r cae yn faes chwarae cymunedol i'r ardal yn ogystal â bod yn faes pêl-droed. Cytunwyd i anfon gair at yr Awdurdod Cynllunio yn argymhell eu bod yn caniatáu'r cais.

Neilltuwyd gweddill cyfarfod yr Is-bwyllgor i drafod oblygiadau llythyr Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion, parthed codi tai fforddiadwy yng Nghulanamaesmawr. Wedi trafodaeth helaeth ar oblygiadau'r cynllun i'r gymuned a'r Cyngor, cytunwyd i gydweithredu gyda'r Hwylusydd i gynnal asesiad o'r angen am dai fforddiadwy o fewn y gymuned.

Yn absenoldeb y Cynghorydd Megan Mai, cymerwyd y gadair gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Gerwyn Jones, yn y cyfarfod llawn nos Lun 29 Mawrth.

Darllenwyd llythyr cynhwysfawr gan Brif Weithredwr Cyngor Ceredigion yn amlinellu polisi'r Cyngor Sir mewn ymateb i'r gŵyn a dderbyniwyd gan y Cyngor Cymuned ac eraill parthed methiant y Cyngor Sir i gadw'r ffyrdd gwledig ar agor yn ystod tywydd garw'r gaeaf.

Adroddodd y Cynghorydd Evan Evans ar y cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan y Tîm Plismona Bro i gwrdd â thrigolion yr ardal ar 17 Mawrth. Er mai siomedig iawn oedd nifer y rhai a fynychodd y cyfarfod, fe gytunwyd ar dri

blaenoriaeth fyddai'n derbyn sylw'r heddlu yn ystod y tri mis nesaf, sef: 1. Baw Cŵn; 2. Goryrru a pharcio anghyfrifol; 3. Cerbydau 4x4 yn sarnu cefn gwlad. Cynhelir y cyfarfod nesaf o PACT am 7 yr hwyr ar 8 Mehefin.

Adroddwyd fod trefniadau eisoes ar droed gan Bwyllgor Cyhoedduswydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010 i osod baner ar ffin ogleddol y pentref i groesawu ymwelwyr i Eisteddfod yr Urdd, ac felly doedd dim angen gweithredu cynlluniau'r Cyngor Cymuned. Er hynny, fe fydd y Cyngor yn dosbarthu taflen ddechrau Mai yn annog y rhai sy'n byw ar bwys y ffordd fawr i osod baneri o flaen eu cartrefi i groesawu'r Eisteddfod i'r Sir.

Derbyniwyd gair yn cynnig bod un o aelodau Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria yn annerch y Cyngor ar amcanion y Gymdeithas a'u gwrthwynebiad i ddatblygu Fferm Wynt Nant-y-moch. Cytunwyd i anfon gair o ddiolch am y cynnig, ond yn egluro bod aelodau'r Cynghorwyr eisoes wedi cael gwybodaeth am amcanion y Gymdeithas a'r gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig yn y cyfarfod agored yn y Neuadd Goffa a drefnwyd yn ddiweddar gan y Gymdeithas.

Dosbarthwyd crynodeb o'r sefyllfa ariannol diweddaraf i'r aelodau. Eglurodd y Clerc fod yr adroddiad ariannol chwarterol yn dangos bod costau'r Cyngor am y flwyddyn gyfan oddeutu £13,500, sef tua'r un swm â 2008/09. Gellir disgwyl ad-adaliadau o gostau'r Fynwent a TAW yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cyflwynwyd papur yn amlinellu'r Asesiad Risg i'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2010/11. Cadarnhawyd y trefniadau hyn gan y Cyngor.



Nant y Moch, a chi

Mae SSE Renewables (Airtricity gynt) yn bwriadu datblygu fferm wynt rhwng Talybont a Chronfa Nant y Moch. Rydym yn ymgymryd â gwaith ymgynghori i'ch hysbysu chi, a'r gymuned am ein cynllun. Y bwriad yw datblygu fferm wynt rhwng 140 a 176 megawatt (MW) a all - o berfformio cystal a rhai eraill yn y DU - gyflenwi trydan a fydd yn gyfateb i anghenion 65,000* o gartrefi. Amcangyfrifir y bydd digon o wynt ar y safle i'r datblygiad gyflenwi trydan am 70-85% o'r amser.

A fydd y tyrbeini'n swnllyd?

Yn sgil datblygiadau mewn technoleg ynni gwynt dros y degawd diwethaf mae'n bosib i fecanwaith tyrbinau weithio bron yn gwbl ddistaw, gan gyfyngu'r sŵn sy'n dod ohonynt i effaith aeroddeinamig y llafnau pan yn pasio'r tŵr. Mae canllawiau tynn ar lefelau sŵn tyrbinau gwynt er mwyn sicrhau diogelwch ac ansawdd bywyd preswylwyr lleol. Fe ddylai fod yn bosib cynnal sgwrs heb orfod codi llais wrth sefyll wrth droed y tyrbin. Pan fydd y gwynt yn codi, mae sŵn y gwynt ei hun yn dueddol o foddi unrhyw sŵn a ddaw o'r tyrbin.

A fydd y fferm wynt yn amharu ar ein gwasanaeth deledu?

Cyn cyflwyno'r cais cynllunio byddwn yn cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol. Bydd hyn yn cynnwys astudio unrhyw effaith posib ar y signal deledu o fewn dalgylch y cynllun. Os gwelir bod yna effaith mi fyddwn yn gweithio i oresgyn y sefyllfa. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn ein harddangosfeydd cyhoeddus yn ddiweddarach eleni wedi i'r asesiad amgylcheddol gael ei gwblhau.

Lle y gallwn ni gael hyd i mwy o wybodaeth?

Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan www.ffermwyntnantymoch.com neu trwy gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cymunedol, Eluned Lewis ar 01654 702720.

(* Seiliedig ar ddefnydd cyfatebol o 3,300KW/awr y flwyddyn)

Swyddfa Gofrestrefig SSE Renewables Developments (UK) Cyf yw: 2il Lawr, 83-85 Great Victoria Street, Belfast, BT2 7AF Northern Ireland
Cofrestrwyd yng Ngogledd yr Iwerddon Rhif NI043294

www.ffermwyntnantymoch.com

Ysgol Gynradd Tal-y-bont



Diwrnod y Llyfr

I ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni cynhaliwyd bore o gyfnewid llyfrau yn yr ysgol. Cafwyd cefnogaeth dda i'r digwyddiad ac roedd pawb wedi cael hwyl yn dewis llyfrau gwahanol.

Agor Drysau

Yn ystod y mis, cafodd pob plentyn yn yr ysgol y cyfle i fynychu perfformiadau yn yr Ŵyl Agor Drysau. Dyma adroddiad Glain o "Brenhines y Lliwiau" gan Gwmni Theatr Les Voisins.

Aethon ni i weld sioe o'r enw Brenhines y Lliwiau. Roedd rhywun yn tynnu lluniau o'r stori ac roedd dyn yn chwarae'r accordion. Roedd e'n sôn am sut mae lliwiau'n gwneud i chi deimlo. Fy hoff liwiau oedd melyn achos roedd hi'n ddoniol achos roedd hi yn boeth a glas achos roedd hi'n oer. Roedd y miwsig yn glyfar ac roedd y peintio yn dda.

Glain Llwyd Davies

Aeth Blwyddyn 3 a 4 i weld "Dechreuad". Er bod y stori'n syml, roedd yn brofiad diddorol a doniol er nad oedd llawer o siarad. Roedd y stori'n dechrau gyda dechrau amser a'r angylion yn gwarchod baban sgrechlyd, sef Adda.

"Boy with a Suitcase" oedd enw'r cymhyrchiad yr aeth Blwyddyn 5 a 6 i weld. Roedd pawb wedi gwerthfawrogi clywed am broblemau plant yn gorfod ffoi o ryfel a gadael eu teuluoedd. Yr unig beth oedd gan Naz yn ei gâs dillad, oedd straeon ac atgofion, ond roedd rhain yn gysur mawr iddo wrth iddo geisio symud i fyw at ei frawd yn Nulyn.

Aeth y Dosbarth Derbyn a'r Cylch Meithrin i weld Jardin du Possible (Gardd Popeth Posibl) lle cafodd y plant gymryd rhan yn y perfformiad a chael cyfle i gyffwrdd a thrin gwrthrychau byd natur a chynorthwyo'r garddwr i baratoi'r ardd berffaith.

Hoffwn ddiolch o galon i'r Gymdeithas Rieni am noddi'r gweithgareddau.

Eisteddfod yr Urdd

Rydym yn falch iawn o'n llwyddiant yn Eisteddfodau lleol yr Urdd eleni. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n hyfforddi ac yn cynorthwyo'r plant i gyrraedd y safon uchel a welwyd a dymunwn y gorau i bawb yn yr Eisteddfod fawr ar ddiwedd mis Mai. Dyma ganlyniadau'r Eisteddfod Sir a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid:

Llefaru Blwyddyn 1 a 2 – **Glain Llwyd Davies** – 1af
Unawd Chwythbrennau – **Seren Powell-Taylor** – 1af
Unawd Dawnsio Disgo – **Niamh O'Brien** – 1af
Ensemble Offerynnol – **Seren Powell-Taylor, Catrin Huws, Bethan Benham, Zoë Forster Brown, Betsan Siencyn** – 1af
Côr yr ysgol – 2il
Celf a Chrefft (argraffu) – **Niamh O'Brien** – 1af, **Mari Lewis** – 2il, **Geraint Howard** – 3ydd



Top Trumps

Llongyfarchiadau mawr i Zoë Forster Brown am ennill cystadleuaeth Top Trumps am yr amgylchedd yn yr ysgol. Bydd Zoë nawr yn cynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth Top Trumps ar-lein yn erbyn disgyblion o bob rhan o Wledydd Prydain. Pob hwyl iddi.



Ymddeoliad

Ar ddiwedd y tymor clywyd am ymddeoliad Iori a gyrru bws plant Bont-goch ers blynyddoedd. Hoffwn ddiolch o galon iddo am bob cymwynas dros y blynyddoedd ac am ei ofal o'r holl blant y bu'n eu cludo. Yn y llun gwelir Lewis, Louisa ac Oisín yn cyflwyno anrheg i Iori ar ran yr ysgol.



Diogelwch

Ar ddiwrnod olaf y tymor daeth yr Heddlu i siarad gyda dosbarth Blwyddyn 5 a 6 am bwysigrwydd gofalu am ein hunain ar bob adeg. Cafwyd sgwrs fywiog am gadw'n ddiogel wrth gerdded a seiclo drwy'r pentref yn ystod y gwyliau. Diolch am y cynghorion doeth.



Chwaraeon

Yn ystod y mis cafodd pawb o blant Blwyddyn 5 a 6 y cyfle i chwarae mewn pencampwriaeth leol yn erbyn ysgolion eraill cylch Aberystwyth. Er gwaethaf nifer o anafiadau cafwyd perfformiadau calonogol gan y tîm pêl-droed a'r tîm pêlwyd.

Y Talwrn yn Nhal-y-bont

Cafwyd gornest agos a chynnyrch o safon pan ddaeth timau'r Glêr a Thal-y-bont ben ben yn y Neuadd Goffa ar y Talwrn radio. Y Glêr, yn cynnwys Hywel Griffiths o Dal-y-bont, a orfu mewn brwydr gyffrous. Uchafbwynt y rhaglen oedd cystadleuaeth Y Delyneg gyda'r ddau dîm yn cipio 10 marc. Mewn ail ornest ddifyr gwelwyd Y Rhelyw o ardal Caerfyrddin yn trechu gwroniaid Bro Ddyfi. Bydd pigion o'r deunydd a ddarlledwyd i'w darllen yn rhifyn nesaf o Bapur Pawb.



Tim Y Glêr (Eirug Salisbury, Hywel Griffiths a Osian Rhys) a chriw Tal-y-bont (Phil Davies, Anwen Pierce a Phil Thomas) yn dilyn eu gornest ar y Talwrn radio, yng nghwmni Dwynwen Alltgoch y Cynhyrchydd, a'r Meuryn, Gerallt Lloyd Owen

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com



yloffa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com

Sioe Tal-y-bont

Ar nos Lun Mawrth 8fed cynhaliwyd pwyllgor blynyddol Cymdeithas Sioe Amaethyddol a Garddwriaethol Tal-y-bont. Croesawodd y cadeirydd bawb i'r pwyllgor. Cafwyd adroddiadau gan y cadeirydd a'i swyddogion a phawb yn cytuno fod Sioe 2009 wedi bod yn llwyddiant. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at llwyddiant yma.

Cadarnhawyd bydd Sioe 2010 yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn Awst 28ain.

Etholwyd y swyddogion canlynol gogyfer Sioe 2010:
Llywydd: **Dr Myrtle Parker**, Ger-y-Plas.

Cadeirydd: **Mr E Jenkins**, Carregcadwgan.

Is Gadeirydd: **Mr Elgan Evans**, Tynant.

Cyfrawyddwyr y Sioe: **Teulu Bryngwyn Mawr**, Dole.

Trysorydd: **Mr Howard Owens**, Brondirion.

Ysgrifenyddion cyffredinol: **Mrs Janet Jones**, Llwynglas a
Mrs Margaret Griffiths, y Borth.

Bydd pwyllgorau'n cael eu cynnal ar y nos Lun cyntaf o bob mis yn y Neuadd Goffa am wyth o'r gloch ac estynnir croeso cynnes i bawb.

Aquathlon Cerist 2010

Fydd rhai pobol ar fore ddydd Sul yn hapus i fynd a'r ci am dro neu mynd i gasglu newyddion y bore, ond dros y misoedd diwethaf mae Clwb Triathlon Cerist wedi bod yn cynnal cyfres o gystadlaethau Aquathlon yn ein canolfanau hamdden lleol. Gyda dros hanner cant yn cystadlu ac athletwyr yn teithio o bob rhan o Gymru i gymryd rhan roedd digon i gadw ein athletwyr lleol yn brysur. Roedd y rasio yn cynnwys nofio 400 metr yn y pwll nofio ac wedyn rhedeg 5 kilometer i'r diwedd, a chydaf tywydd rhewllyd a'r gwynt oer roedd hi'n sioc i'r corff wrth adael y pwll a chychwyn y rhedeg mewn dillad gwlyb. Ar ôl 4 cyfres yn Aberystwyth, Tywyn a dau yn Bro Dyfi, roedd Dylan Lewis o Dre'r-Ddol yn yr ail safle yn nosbarth y Dynion, yn gyntaf yn adran y dynion dros 50 roedd Pete Jenkins, Clydfan, Tal-y-bont ac hefyd yn gyntaf yn adran y dynion dros 60 roedd John Evans o Daliesin. Gobeithio nawr fydd eu canlyniadau yn cadw i wella dros y flwyddyn gyda'r tymor Triathlon yn cychwyn o ddi'f i rasus yn Harlech a Machynlleth. Am fwy o wybodaeth am y Clwb ewch i'r wefan www.ceristtriathlon.org.uk

Pêl-droed Merched

Teithiodd Gwenno Evans, Sara Jenkins, Nia Jones ac Alwenna Jenkins gyda thîm pêl-droed merched B7 a B8 Ysgol Gyfun Penweddig i Gaernarfon yn ystod y mis. Roeddent yn cystadlu yn rownd gyn-derfynol Ysgolion Uwchradd Cwpan Cymru. Yn anffodus collwyd y gêm yn erbyn Ysgol Brynrefail.

CWMNI'R MORLAN yn cyflwyno
DAMIEN, TOMOS AC ARIANWEN WEN WEN:

Rhaglen wreiddiol ar thema hawliau dynol

Capel Bethel, Tal-y-bont

7.30 Nos Fercher 28ain Ebrill

Mynediad am ddim.

CROESO I BAWB

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Cawod Defaid Symudol ARTHUR MORGAN

Dosbarthwn a gwaredwn 'dip defaid'



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwailt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Fe ymwelodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio, Jocelyn Davies AC, ag Aberystwyth yn ddiweddar i gyhoeddi y bydd buddsoddiad gwerth £10.3 miliwn ar gael dros y tair blynedd nesaf er mwyn datblygu'r dref. Roeddwn yn falch iawn i ymuno â'r Gweinidog ar gyfer ei cyhoeddiad, ac rwy'n gobeithio y bydd y buddsoddiad yn rhoi hwb i economi'r dref a'r ardal ehangach. Fe fydd y cynlluniau i adfywio'r dref yn canolbwyntio ar wahanol themâu ac ardaloedd megis y prom, tai, cyflogaeth a theithio; a'r gobaith y bydd y datblygu yn cadarnhau Aberystwyth fel prif dref y Canolbarth.



Ymwelais ag Ysgol Gynradd Lledrod yn ddiweddar i weld paneli solar sydd wedi cael eu gosod yno gyda nawdd Nwy Prydain. Mae disgyblion yr ysgol wedi bod yn gweithio tuag at leihau ôl carbon yr adeilad, ac roeddwn yn falch i weld brwdfrydedd y plant i amddiffyn yr amgylchedd rhag newid yn yr hinsawdd.

Dros yr wythnosau diwethaf, rwyf wedi cwrdd gyda chynrychiolwyr o bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer 'Aberystwyth a Phenparcau' a 'Tregaron a'r Ucheldir'. Yn ystod y cyfarfodydd, fe glywais mwy ynghylch gwaith y partneriaethau a'r prosiectau maent yn gweithio arnynt ar hyn o bryd. Roeddwn hefyd yn falch i fedru cwrdd â rhai o drigolion Penparcau yn y Senedd yn ddiweddar tra eu bod ar daith i Fae Caerdydd oedd wedi ei threfnu gan Gymunedau'n Gyntaf.

Fe fynychais dau ddathliad i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn ddiweddar. Yn gyntaf, fe gynhaliwyd cinio ym Mhlasty Rhosygilwen yng Nghilgerran ger Aberteifi i ddathlu'r diwrnod. Fe wnes hefyd ymuno â rhai aelodau o Sefydliad y Merched wrth iddynt gerdded o Bont Trefechan, Aberystwyth.

Yn olaf, roeddwn yn falch i weld cymaint o bobl yn bresennol yn Eisteddfod Sir yr Urdd ar gyfer disgyblion oed cynradd, a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid eleni. Mae'n amlwg fod cystadleuwyr o bob oedran yn edrych ymlaen at yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sydd i'w chynnal yn Llanerchaeron, a hoffwn longyfarch pawb ar eu gwaith caled!

Canlyniad BLE YN Y BYD

Rhys Huw Evans, Uwch y Nant Borth – tocyn llyfrau £10.00 ar y ffordd.
Ateb cystadleuaeth mis Mawrth: Capel Pensarn.

Ble yn y byd?

Sut i chwarae

Ble yn nalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 7 Mai.

Gwobr: Tocyn Llyfr gwerth £10

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.





CFfl Tal-y-bont

Yn dilyn yr holl fwrwm gyda'r ddrama a gymrodd rhan fwyaf o fis Ionawr a Chwefror i'w chwblhau, cafwyd cyfle i fynd ar dramp lawr i Gefnabws a chael noson ddifyr yng nghwmni Elgan a Huw a fu'n sôn am eu tractors COCHION! Bron i Glwb Tal-y-bont dipio fewn i'w coffrau er mwyn dod adre mewn tractor coch!

Yna, daeth Mair Nutting atom ar gyfer noson gremgog.....(ie, dwi'n gesio eich bod chi'n meddwl bod ein calendr ni bach yn hwy, ond cofiwch mai am Clwb Tal-y-bont ni'n siarad yma!)... bu hyd yn oed brwydr am y pancos perffaith, ac er mawr siom i mi, Brodyr Tynant a gipiodd y clod! Doedd dim amser i ymlacio ar ôl cael llond boliaid, trafodwyd cystadlaethau Diwrnod Maes y Sir ac aethpwyd ati i ymarfer!

Cyrhaeddodd Dydd Sadwrn, 27ain o Fawrth, a bu diwrnod hir o gystadlu. Ar ddiwedd y dydd daeth cwpan i feddiant Geraint Cerrigaranau am y Stocmon Hŷn Orau, gydag Aled Llyr yn dod yn 3ydd. Daeth y tîm barnu hŷn yn gyntaf efo Eifion ac Elgan yn cwlhau gweddill y pedwarawd! Daeth Dewi Ty'n Graig yn 2ail, a Richard John yn 3ydd yn yr adran iau. Yn y prynhawn, ffensio fu'r gystadlaethau daeth a chwys i dalcen Geraint Cerrigaranau, Llyr Penbanc a Rhydian Tynant a da iawn nhw, fe ddaethon nhw'n 2ail! Canlyniadau da iawn, a phob lwc i Geraint, Aled, Dewi a Richard John bydd yn cynrychioli Ceredigion yn Niwrnod Maes Cymru lawr yn Llanymddyfri ar y 10fed o Ebrill!

Noson i ymlacio oedd hi ar nos Fawrth olaf mis Mawrth, a trip i'r Sinema i bawb.

Ma'r Rali eleni'n cael ei chynnal ychydig yn gynt lawr yn Llanddeiniol ar yr 22ain o Fai, felly bydd cyfarfod yn cael ei chynnal ar y 13eg o fis Ebrill! Ma' croeso mawr i unrhywun ddod atom - yn bennaf oll oherwydd byddem yn gwerthfawrogi unrhyw gymorth neu hyfforddiant sydd gennych i'w gynnig!



Y parti stepio buddugol

Or chwith: Meinir Edwards (cyfeilyddes), Jenô Lewis, Medi Fflur Evans, Elen Ebenezzer, Efa Edwards, Lois Jones, Elan Elidyr, Gwawr Keyworth, Alaw Lewis (hyfforddwraig), Gwennllian Lewis. (yn absennol Esther Ifan, telynores)



Daeth aelodau Ysgol Sul Bethel ynghyd i ddathlu'r Pasg mewn gwasanaeth arbennig lle cafwyd anerchiad gan un o feibion yr ardal, sef y Parchedig John Watkin.

Clwb Nos Wener Noson o Farddoni



Y tri bardd dawnus o waelod Ceredigion, Ceri Wyn Jones, Tudur Dylan Jones ac Emyr Davies, sef Y Tacogion, oedd gwsteion y Clwb Nos Wener yn y Llew Gwyn, ddiwedd Mawrth. Cefwyd noson o chwerthin iach wrth i'r tri ddarllen eu cerddi gogleisiol a diddori'r gynulleidfa gyda llwyth o straeon difyr wrth gyflwyno eu gwaith. Roedd hi'n braf medru mwynhau perfformiad mor ffraeth, a hynny heb orfod symud o Dal-y-bont. Gostyngwyd y safon braid yng nghystadlaethau y limrig gyda Phil Davies yn cael ei 'gadeirio', mewn cystadlaethau wan. Y mis nesaf bydd Gai Toms yn ymweld â'r Clwb, wrth i dymor llwyddiannus arall ddirwyn i ben.



Medi Fflur Evans



Sam Ebenezzer